

Y GROES

Darllen: Marc 15: 21-41,
Mathew 27: 45-57,
Luc 23: 26-49,
Ioan 19: 17-30

Cyrhaeddodd yr awr i roi'r gorau i'r sbort. Gwisgwyd y carcharor yn ei ddillad ei hun. Gosodwyd trawst ei groes ar ei ysgwydd a'i arwain allan i'r stryd i gymryd y ffordd hiraf i'r lleoliad dienyddio y tu allan i furiau'r dref, gyda gwarant ei gosb yn cael ei chario o'i flaen.

Yn ei wendid, ni allodd y carcharor hwn gario ei groes a syrthiodd y dyn a'i lwyth i'r llawr. Defnyddiodd y milwyr eu hawl i alw rhywun o'r dorf i'w chario yn ei le. Simon o Gyrene, 'tad Alexander a Rwffus,' a ddewiswyd ac yntau, mae'n debyg, wedi dod o Ogledd Affrica er mwyn dathlu'r Pasg yn y Ddinas Sanctaidd. Mae'n bosibl bod yr ymweliad yn cyflawni breuddwyd bywyd, ond ar orchymyn milwr, trodd ei freuddwyd yn hunllef. Peth aflan yn halogi'r sawl a gyffyrddai ag ef oedd pren croeshoelio. Byddai hi'n amhosibl i'r dyn o Gyrene fynd yn agos at y Deml yn awr, heb sôn am gael rhan yn y dathliadau. Yn lle llawenhau gyda'r torfeydd, rhaid iddo gadw ar wahân mewn siom a gwarth. Hawdd dychmygu casineb yn ei galon at y carcharor eiddil yn ogystal â'r milwyr. Gwerth nodi'r ffaith bod Marc yn sôn am feibion Simon o Gyrene fel rhai adnabyddus wrth iddo ysgrifennu ei Efengyl yn arbennig ar gyfer yr Eglwys yn Rhufain. Y mae Llyfr yr Actau (13: 1) yn rhestru proffwydi ac athrawon yr Eglwys yn Antiochia, a fu'n gyfrifol am ddanfôn Barnabas a Paul ar eu taith genhadol gyntaf at y Cenedl-ddynion, a'r ail ohonynt yw '*Simeon, a elwid Niger*', h.y. 'dyn du'. Ai'r un Simon (Simeon) sydd yma? Ai profiad dyn a cafodd ei orfodi i gario croes Iesu oedd yn gyfrifol am y genhadaeth gyntaf i Ewrop a'r byd? Wedyn, ymhlith cyfarchion personol Paul ar ddiwedd y Llythyr at y Rhufeiniaid, ceir y frawddeg hon: "*Cyfarchwch Rwffus, sy'n Gristion dethol, a'i fam sy'n fam i minnau.*" Sonia'r llyfr apocryffaidd, *Actau Pedr ac Andreas*, am y ddau frawd fel ymdeithwyr a disgyblion Andreas a Pedr ar daith genhadol.

Aeth yr orymdaith ar ei ffordd drwy strydoedd cul y ddinas ac allan trwy un o'r pyrth gan gyrraedd tomen sbwriel y ddinas, bryn gyda'r enw Aramaeg 'Golgotha' (Ile'r Benglog) ac un o leoliadau dienyddio

Jerwsalem. Tynnwyd gwisg y carcharor a'i roi o'r neilltu. Cynigiwyd iddo *'win wedi ei gymysgu â bustl'* er mwyn lleddfu'r boen ond gwrthododd ei yfed (Mathew 27: 34). Hoeliwyd ef a dau droseddwr, pob un i'w croes a'u gosod, gyda Christ yn y canol, *'ei feddrod gyda'r troseddwy'r.'*¹³ Daeth y gwaith i ben am naw o'r gloch y bore; dim i'w wneud bellach ond aros ac edrych a gwrando ar y dynion yn hongian yno. Gan fod y Galilead, fel y ddau arall, yn ddiogel ar ei groes, roedd gan y milwyr gyfle i droi at yr hyn a oedd yn bwysig iddynt, sef bwrw coelbren i rannu ei ddillad rhwng y criw o bedwar- ei grys, ei sandalau, ei wregys, ei dwrban a'r dilledyn mwyaf gwerthfawr, sef ei wisg allanol. *'Y maent yn rhannu fy nillad yn eu mysg ac yn bwrw coelbren ar fy ngwisg'* (Salm 22: 18).

Gweddi:

*Arglwydd Iesu, clodforwn di am dy gariad gwaredigol
ac am y cyfan a wnaethost drosom.*

*Wrth i ni blygu mewn edifeirwch wrth y groes
cydnabyddwn yn ddiolchar ein dyled i ti.*

*Canys eiddom ni y pechod a ddygaist,
eiddom ni y pris a dalaist,*

eiddom ni yr iachawdwriaeth a ennillaist.

*Arglwydd Iesu, derbyn ein diolchgarwch
a gwna ni'n fwy teilwng o'th gariad di;
er mwyn dy gariad. Amen.*